

HELP I OSOD EICH EIDDO



Mae **Gwasanaeth Gosod Eiddo Sir Fynwy** yn dîm profiadol a phroffesiynol wedi'i leoli yn Sir Fynwy. Drwy weithio gyda ni bydd gennych fynediad i dîm profiadol o gynghorwyr tai sydd wedi llwyddo i reoli cannoedd o eiddo dros y deng mlynedd diwethaf. Ar hyn o bryd nid oes ffioedd yn gysylltiedig ag unrhyw un o'n gwasanaethau.

Dim ffioedd - Help gyda thaliadau budd-dal tai – Bond adneuo – Gwiriadau diogelwch nwy a thrydan – Gwiriadau eiddo am ddim – pecynnau pwrpasol ar gael – Rhestrau eiddo am ddim – Gweithiwr proffesiynol penodol a fydd ar gael fel cyswllt cyntaf ar eich cyfer chi a deiliad eich contract drwy gydol y contract.

Sut mae'n gweithio

Byddwn yn siarad â chi am yr eiddo sydd gennych i'w osod a thrafod gofynion. Os ydych yn dymuno bwrw ati, byddwn yn gofyn am weld yr eiddo. Byddwn yn ymweld i weld cyflwr yr eiddo a thrafod y safonau sydd eu hangen arnom gan gynnwys tystysgrifau diogelwch, dodrefn ac ati.

Beth all y tîm ei wneud i chi?

Mae gan Wasanaeth Gosod Eiddo Sir Fynwy nifer o gymhellion y gallwn eu cynnig, gan gynnwys:

- Llinell gyngor Landlord preifat – Mae aelod o'n tîm cyfeillgar ar gael yn ystod oriau swyddfa

- Gwylio yng nghwmni – Gall aelod o'r tîm fynychu a chysylltu'n uniongyrchol â'ch darpar ddeiliad contract
- Cytundebau Contract – Rydym yn hapus i ddarparu cytundebau sydd wedi'u paratoi ymlaen llaw gyda phob contract
- Rhestrau eiddo – Gallwn ymgymryd â rhestrau ysgrifenedig a ffotograffig
- Gwasanaeth cynhwysiant ariannol – Gallwch ofyn am gymorth os yw deiliad eich contract yn profi anawsterau gyda chyllido neu anawsterau gyda budd-daliadau
- Gwasanaeth cymorth tai – Gallwch ofyn am gymorth os yw deiliad eich contract yn torri ei gytundeb contract.



Am ragor o wybodaeth: Ffôn: 01873 735426
E-bost: MLS@monmouthshire.gov.uk

